



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Nyrsio Preswylfa

**Cartref Nyrsio Preswylfa
20 Russell Road
Y Rhyl
LL18 3DD**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

9 Chwefror 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildddefnyddio'r wybodaeth a geir yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, ar unrhyw ffurf neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Mae'n rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â Chartref Nyrsio Preswylfa

Math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion â gofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Akari Care Cymru Limited
Lleoedd cofrestredig	68
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru	15/11/2021
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb

Mae goruchwyliaeth dda bellach o'r ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Mae ystod o archwiliadau, goruchwyliaeth gan y rheolwr newydd a'r unigolyn cyfrifol, ac ystod o fforymau rheoli yn helpu i fonitro a gwella gweithrediad y gwasanaeth. Mae'r staff bellach yn cael ystod dda o hyfforddiant a goruchwyliaeth i sicrhau eu bod yn gymwys ac yn fedrus. Mae'r staff bellach yn cael hyfforddiant o ddiwrnod cyntaf eu cyflogaeth. Mae'r bobl yn fodlon ar y ffordd mae gofal a chymorth yn cael eu darparu gan y staff. Mae mesurau atal a rheoli heintiau da ar waith. Gwelsom fod y staff gofal yn gyfeillgar ac yn galonogol a'u bod yn mynd at bobl mewn ffordd urddasol. Mae gwaith parhaus yn mynd rhagddo i ailaddurno ac ailwampio'r gwasanaeth. Mae angen gwelliannau yng nghynnwys y cynlluniau personol.

Llesiant

Mae pobl yn cael eu cefnogi mewn amgylchedd sy'n gwella ac sydd â mesurau iechyd a diogelwch da ar waith. Mae gwaith i addurno'r coridorau a'r ystafelloedd gwely a gwaith ailwampio wedi dechrau. Mae'r gwasanaeth yn dilyn canllawiau cyfredol i hyrwyddo ymweliadau ac mae mesurau rheoli heintiau priodol ar waith. Mae'r gwasanaeth yn gynnes, yn lân ac yn gartrefol. Gall pobl bersonoli eu hystafelloedd ag eitemau sy'n bwysig ac o werth personol iddynt. Mae'r coridorau, ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd gwely yn glir o beryglon cwmpo, fel bod pobl yn gallu cerdded o gwmpas yn ddiogel. Mae'r cyfarpar yn lân ac yn lanwaith ac mae oriau'r staff domestig wedi cynyddu.

Mae'r bobl yn elwa o staff sy'n eu hadnabod yn dda. Clywsom staff gofal a phobl yn siarad â'i gilydd mewn ffordd naturiol, gynnes a chyfeillgar. Roedd y staff yn trin pobl â pharch, ac yn sicrhau bod urddas pobl yn cael ei gadw. Gwelsom ryngweithio cadarnhaol rhwng staff gofal a phobl drwy gydol yr arolygiad. Roedd pobl yn ymddangos yn gyfforddus ac yn hamddenol. Gwelsom fod staff gofal yn garedig ac yn ofalgar ac yn cynnig dewis i bobl am bryd yr oeddent am godi neu fynd i'r gwely. Mae dewis priodol o brydau bwyd ac roedd byrbrydau a diodydd ar gael i bobl. Mae'r clychau galw yn cael eu hateb mewn modd amserol, mae gweithgareddau yn cael eu cynnig i atal diflastod, ac mae unigolyn gweithgareddau newydd wedi cael ei gyflogi.

Mae iechyd a llesiant pobl yn cael eu hyrwyddo ond mae angen gwelliannau o ran dogfennaeth. Nid oedd y cynlluniau personol yn darparu'r staff gofal â'r wybodaeth yr oedd ei hangen arnynt i ddarparu gofal ymatebol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac mae angen eu gwella; fodd bynnag, mae hyn wedi cael ei nodi gan y tîm rheoli ac maent ar hyn o bryd yn mynd i'r afael ag ef. Mae buddsoddiadau wedi cael eu gwneud i ddatblygu'r staff gofal i sicrhau bod ganddynt y wybodaeth a sgiliau priodol pan fyddant yn darparu gofal. Gwelsom lawer o enghreifftiau o sut mae'r staff yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd a oedd yn gwella eu llesiant. Roedd y staff yn cynnal urddas y bobl yn ochelgar ac yn gwneud iddynt deimlo'n gyfforddus drwy siarad â nhw am bethau cyffredin.

Gofal a Chymorth

Mae pobl yn derbyn cymorth da gan staff cyfeillgar a pharchus. Gwelsom staff gofal yn trin pobl ag urddas a pharch, ac roedd y gofal a welwyd yn cael ei roi yn ddigynnwrf ac yn amserol. Clywsom staff gofal yn rhoi dewis yn aml i bobl yn ystod y dydd – er enghraifft, beth oeddent am ei fwyta/yfed, ble roeddent am eistedd, a pha weithgareddau yr oeddent am gymryd rhan ynddynt. Gwelsom fod y fwydlen yn galluogi pobl i gael dewis ar bob amser bwyd, a dywedodd pobl wrthym eu bod yn gallu gofyn am fwyd gwahanol os nad oeddent yn hoffi'r pryd bwyd a gynigir a bod y bwyd yn foddhaol. Mae amser cinio yn brofiad cadarnhaol, gyda phobl yn eistedd wrth fyrddau sydd wedi cael eu paratoi yn daclus, ac roedd pupur a halen a dewis o ddiodydd ar gael.

Gwelsom fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu gwneud ar gyfer pobl i sicrhau nad oedd eu croen yn mynd yn boenus a'u bod yn gyfforddus. Roedd cymeriant bwyd a hylif pobl yn cael ei fonitro i sicrhau hydradu a maeth da. Mae ystod o weithgareddau ar gael yn y gwasanaeth os yw pobl am gymryd rhan ynddynt – er enghraifft, ymarferion mewn cadair freichiau, ffilmiau, triniaeth ewinedd a diddanwyr allanol. Mae unigolyn gweithgareddau newydd wedi cael ei gyflogi, a fydd yn gwella'r maes hwn ymhellach. Gwelsom fod eu holl eitemau personol ar bwys pobl a oedd yn cael eu nyrsio yn eu hystafelloedd a bod cerddoriaeth ddymunol yn cael ei chwarae yn y cefndir.

Ni all pobl fod yn hyderus o hyd bod gan y staff gofal gynllun cywir a chyfredol yn nodi sut mae eu gofal yn cael ei ddarparu. Mae'r system gofal electronig wedi cael ei chyflwyno ac mae bellach yn gweithredu'n llawn ac mae'r holl gofnodion papur bellach wedi cael eu trosglwyddo i'r system newydd hon. Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal ac asesiadau risg tri unigolyn, gan weld gwybodaeth sylfaenol yn y dogfennau. Mae hwn yn faes sydd wedi cael ei nodi gan y tîm rheoli a rhoddwyd sicrwydd bod camau i fynd i'r afael â'r maes hwn yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd drwy gyflwyno 'preswlydd y dydd' a dywedwyd wrthym y byddai'r holl gofnodion yn llawer mwy personol a manwl ymhen mis. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Amddiffynnir pobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae'r staff gofal yn ymwybodol o'r gweithdrefnau diogelu lleol ac maent bellach wedi cael hyfforddiant mewn diogelu. Roedd pobl nad oeddent yn gallu gwneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â ble i fyw neu am eu gofal yn ddarostyngedig i'r trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Gwelsom fod ceisiadau a gwaith papur ar gyfer y trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid yn briodol ac yn ddigon manwl. Roedd pobl nad oeddent yn gallu siarad ar ran eu hunain neu nad oedd ganddynt gynrychiolydd dynodedig yn gallu cael cynrychiolydd annibynnol drwy'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd yr adroddiadau yn dilyn ymweliadau'r unigolyn cyfrifol yn dangos trosolwg o'r cartref a'r gwasanaeth a gynigir.

Yr Amgylchedd

Mae digon o le ar ddau lawr y gwasanaeth gyda lolfeydd i'r bobl gymdeithasu ynddynt yn ogystal ag ardaloedd mwy tawel. Mae pobl yn cael eu hannog i eistedd yn y lolfa i gymdeithasu ac ymuno yng ngweithgareddau'r dydd. Mae pobl yn gallu eistedd o gwmpas y bwrdd ar gyfer eu prydau bwyd os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Gall pobl bersonoli eu hystafelloedd ag eitemau sydd yn bwysig iddynt a rhoi teimlad cartrefol iddynt. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ailaddurno'n sylweddol ac mae sawl ardal erbyn hyn wedi cael ei chlirio a'i thacluso.

Ymgynghorir â phobl ynglŷn â chynllun lliw ei hystafell a'r amgylchedd os ydynt am gynnig barn. Mae'r toiledau a'r ystafelloedd ymolchi yn lân ac yn lanwaith ac yn cael eu gwirio'n rheolaidd trwy gydol y dydd. Mae oriau'r staff domestig wedi cael eu cynyddu ac mae hyn yn galluogi'r gwasanaeth i gael ei lanhau'n fwy trylwyr. Mae offer fel cadeiriau olwyn, byrddau a theclynnau codi yn lân. Nid oedd arogleuon drwg ac roedd yr holl ardaloedd a welwyd yn lân ac yn ffres.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion glanwaith ac yn rheoli risgiau o ran heintiau'n dda. Mae cyfarwyddiadau i'r staff ac ymwelwyr yn cael eu dangos mewn lle amlwg, gwelsom staff yn gwisgo masgiau wyneb, ac roedd hylif diheintio dwylo o gwmpas y cartref er mwyn i bawb ei ddefnyddio. Dywedodd staff wrthym eu bod nhw'n teimlo'n hyderus o ran eu gwybodaeth ac y byddent yn adrodd am unrhyw bryderon. Mae systemau rheoli heintiau yn dda, ac mae ystod eang o fesurau yn cael eu defnyddio i sicrhau bod pobl yn ddiogel rhag COVID-19. Mae hyn yn cynnwys profi ymwelwyr â'r gwasanaeth yn ogystal â defnydd da o gyfarpar diogelu personol gan staff ac ymwelwyr.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae bellach systemau clir ar waith i fonitro ansawdd y cymorth mae'r bobl yn ei gael. Mae archwiliadau yn cael eu monitro ym mhob agwedd o'r gwasanaeth, gan gynnwys meddyginiaeth, mesurau rheoli heintiau a chadw cofnodion. O'r rhain, gwelsom fod unrhyw broblemau a oedd yn codi yn cael eu datrys mewn da bryd. Mae'r rheolwr rhanbarthol a'r rheolwr dros dro yn parhau i fod yn bresennol yn y gwasanaeth i gefnogi'r rheolwr newydd, ac mae'r Rheolwr Ansawdd a Cydymffurfedd wedi ymweld â'r gwasanaeth hefyd. Mae cynllun datblygu'r gwasanaeth yn cael ei fonitro gan uwch-reolwyr ac mae gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud. Mae'r rheolwr newydd yn cerdded o gwmpas y gwasanaeth bob dydd, gan gael cip ar feysydd amrywiol fel yr amgylchedd, cyfarpar diogelu personol a dogfennaeth, ac mae unrhyw broblemau sy'n cael eu nodi yn cael eu trin yn y man a'r lle. Mae polisi drws agored; gwelsom y rheolwr newydd yn siarad â nifer o bobl yn y gwasanaeth a nodwyd ei fod byth ar frys. Dywedodd staff gofal hefyd fod y rheolwr newydd a'r rheolwr cynorthwyol yn hawdd mynd atynt a'u bod yn teimlo bod cyfathrebu a morâl y staff wedi gwella'n sylweddol yn y misoedd diwethaf.

Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd er mwyn gwirio ansawdd gofal cyffredinol y gwasanaeth ac yn gofyn i bobl am eu barn ar unrhyw welliannau y gellid eu gwneud. Wedyn, mae adroddiad ar ei ganfyddiadau yn cael ei baratoi. I ddechrau, nid oedd yr adroddiad cyntaf a gyflwynwyd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, ond mae adroddiad pellach, a gyflwynwyd yn ystod yr arolygiad, bellach yn dangos trosolwg da a manylion ei ymweliad. Gwelsom fod sawl un y siaradwyd ag ef yn ystod yr ymweliad mwyaf diweddar yn gadarnhaol a chanmoliaethus iawn am eu gofal. Roedd perthnasoedd yn ganmoliaethus am y gofal mae eu hanwyliaid yn ei gael ac am y tîm o staff a'r rheolwr newydd. Mae arolygon wedi cael eu hanfon at staff, pobl sy'n byw yn y cartref a theuluoedd ac mae'r rheolwr yn aros am yr holiaduron i gael eu cwblhau a'u dychwelyd.

Mae pobl yn cael gofal gan staff gofal sy'n cael yr hyfforddiant a chefnogaeth berthnasol i ddiwallu eu hanghenion. Mae nifer priodol o staff gofal wrth eu gwaith ymhob shift, i sicrhau bod pobl yn ddiogel a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu, a gwelsom glychau galw yn cael eu hateb mewn da bryd. Roedd y matrices hyfforddiant yn dangos bod staff bellach wedi cael hyfforddiant mewn pynciau sgiliau craidd fel codi a chario, diogelu a maethiad ac mae rhaglen barhaus o sesiynau ymwybyddiaeth crebachdod gyda gweithwyr iechyd proffesiynol. Gwelsom fod staff newydd yn cwblhau rhaglen sefydlu fewnol i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r polisiâu, y protocolau ac iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â hwy yn hapus ac yn fodlon ar y gofal a'r cymorth y maent yn eu cael. Mae'r staff yn cael cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd bob dau fis i wirio ar eu llesiant, eu hymarfer, unrhyw bryderon, a'u dyheadau ar gyfer datblygiad.

Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chyflawnwyd.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol
36	Nid yw'r staff wedi cael hyfforddiant sefydlu neu hyfforddiant gloywi i sicrhau eu bod yn gymwys i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.	Cyflawnwyd
6	Nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu gyda digon o ofal, cymhwysedd a sgiliau. Ni fu goruchwyliaeth iawn o reolwyr, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth.	Cyflawnwyd
21	Nid yw'r darparwr gwasanaeth wedi sicrhau bod gofal a chymorth wedi cael eu rhoi mewn modd sy'n amddiffyn, hyrwyddo a chynnal diogelwch a llesiant unigolion.	Cyflawnwyd
44	Dylai ystafelloedd gwely gael eu haddurno a'u dodrefnu i hyrwyddo llesiant cadarnhaol ar gyfer	Cyflawnwyd

	unigolion. Nid yw'r nifer o staff domestig sy'n gweithio yn y gwasanaeth ar hyn o bryd yn ddigonol i gadw'r amgylchedd yn lân i safon briodol. Rhaid i'r safle gael ei gadw'n lân ac yn briodol ar gyfer y pwrpas y mae'n cael ei ddefnyddio ar ei gyfer.	
--	---	--

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Dyddiad cyhoeddi 13/03/22